
# Annwyl Leo, Annwyl Iestyn:

# Proses gydweithredol cyfres Y Pump




**Iestyn Tyne a Leo Drayton**

Cyfres o bum nofel yw Y Pump (2021), sy’n dilyn hynt a helyntion bywyd pump o ffrindiau wrth iddyn nhw wynebu eu blwyddyn olaf yn Ysgol Gyfun Llwyd. Mae gan Tim, Tami, Aniq, Robyn a Cat oll rywbeth amdanyn nhw sy’n eu gwneud yn unigryw, ac sy’n aml yn gwneud iddyn nhw deimlo nad ydyn nhw yn perthyn neu’n cydymffurfio gyda normau’r gymdeithas o’u cwmpas. Yn eu cyfeillgarwch yn aml y mae eu cryfder, er bod clymau’r cyfeillgarwch hwnnw rhwng y criw yn aml yn cael eu hymestyn a’u herio.

Comisiynwyd pump o awduron mwy profiadol a phump o gyd-awduron ifanc i gydweithio fesul dau ar y nofelau, sy’n dilyn y flwyddyn ysgol yn gronolegol. Elgan Rhys, creawdwr gwreiddiol Y Pump, oedd golygydd cyffredinol y gyfres, a’r awduron a fyddai’n arwain ar y gwaith ysgrifennu. Roedd y cyd-awduron yn cyfrannu at adeiladu’r byd, y plot a’r cymeriadau, ac yn cynnig gwelliannau fesul drafft. Yn allweddol, roedd pob un o’r cyd-awduron yn rhannu profiad gyda phrif gymeriad ffuglennol eu nofel nhw, gan annog portread o berson ifanc a fyddai mor driw â phosib i’r profiad hwnnw. Nid dweud a wneir mai’r elfen honno o’u hunaniaeth sy’n arwain y stori o hyd, ond yn hytrach, fod yr awduron, trwy gydweithio, wedi medru mireinio’r elfen honno o hunaniaeth y cymeriad nad yw’n rhan o brofiad personol.

Adeiladwyd y nofelau fesul traean, gan ddychwelyd at y cyd-awduron bob tro. Roedd anogaeth i’r cyd-awduron gynnig sylwadau onest ar y mannau nad oedden nhw’n taro’n gyfforddus, yn ogystal â’r darnau hynny a oedd yn teimlo fel eu bod yn mynegi rhyw deimlad y gallen nhw uniaethu ag o. Trwy hyn, fe dyfodd y nofelau a’r cyd-blethu rhyngddynt mewn modd organig iawn. Yn sgil dyfodiad pandemig COVID-19, roeddem dan glo yn ein hystafelloedd yn cyfathrebu dros Zoom a WhatsApp drwy gydol cyfnod y datblygu a’r ysgrifennu. Y tro cyntaf i’r 10 awdur a chyd-awdur ymgynnull yn yr un ystafell oedd diwrnod dadfocsio’r cyfrolau newydd sbon ym mis Gorffennaf 2021.

*

Annwyl Leo,

Gobeithio dy fod di’n cadw’n iawn i lawr yng Nghaerdydd. Dwi’n gyrru gair atat er mwyn ceisio myfyrio rhywfaint ar fy nhaith i – ein taith ni – gyda'r nofel *Robyn* (2021) a chyfres Y Pump.

Fel sgwennwyr, rydyn ni'n rhoi llawer iawn ohonon ni ein hunain yn ein cymeriadau. Mae hynny'n anorfod; ein profiadau ni o fywyd ydi'r rhai mwyaf llachar y gallwn ni dynnu arnyn nhw wrth siapio personoliaeth gredadwy o fewn byd amlhaenog. Mae'r rhannau hynny o'r cymeriad sy'n perthyn yn agos i mi yn fy angori fel awdur, yn bethau i ddychwelyd atyn nhw, ac yn gerrig i gamu tuag at y profiadau hynny sy'n fwy diarth i mi. Ond nid sgwennu amdanom ni ein hunain rydyn ni, wrth gwrs, pan fyddwn ni'n adeiladu plot a'i boblogi gyda chymeriadau dychmygol, eu hofnau a'u dyheadau. Rydyn ni'n creu pobl o'r newydd – rydyn ni'n dod i'w nabod nhw yn eu holl gymhlethdod wrth inni weithio; maen nhw'n datblygu ac yn blaguro, rydyn ni'n teimlo'n rhwystredig ar eu rhan weithiau, a thro arall yn falch ohonyn nhw pan fyddan nhw'n profi llwyddiant neu lawenydd.

Ond beth am y straeon hynny, y profiadau hynny sydd mor bell o'n gafael a'n hamgyffred ein hunain nes ei bod hi'n anodd dibynnu ar y dychymyg (a Google)? Y pethau sydd mor ddryslyd a dwys i bobl sy'n mynd trwyddyn nhw eu hunain, nes bod ceisio'u deall yn iawn, weithiau, y tu hwnt i ni. Roeddwn i'n arfer credu mai hawl ddwyfol yr artist oedd creu fel y myn heb unrhyw rwystr; y gall awdur ei roi ei hun yn esgidiau unrhyw un, a siarad o'i safbwynt. Efallai bod hynny'n wir. Hynny ydi, tydi hi ddim yn *anghyfreithlon* i mi sgwennu o safbwynt neb arall. Ond mae yna lawer iawn o bethau sy'n gyfreithlon heb eu bod nhw o reidrwydd yn *gyfrifol*.

Ar y silff wrth fy nesg mae cyfrol *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol* Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint 2016. Ar yr un silff hefyd mae coron yr eisteddfod honno, a enillwyd am gasgliad o ryddiaith greadigol; casgliad oedd yn mynd i fydoedd personol saith person gwahanol, yn eu plith ffoadur Syriaidd, person ifanc cwiar sy'n mynd allan mewn drag am y tro cyntaf, a therfysgwr yn ymosodiadau Paris 2015. Dwi'n gwingo braidd wrth fynd yn ôl at y darnau hynny erbyn hyn. Mae yna lawer o sgwennu ynddyn nhw rydw i'n falch ohono, ond dwi'n sylwi hefyd ar fy naïfrwydd iau fy hun, ar y methiant i ddeall y cyfrifoldeb sy'n dod gyda chreu gwaith artistig sy'n mynegi profiadau amrywiol.

Oedd hi'n gyfrifol, mewn gwirionedd, i mi fod wedi adrodd y straeon hynny heb unrhyw gymorth? Un peth sy'n sicr; os yw awdur am wneud hynny, nid oes lle i lawer o gamau gwag yn ei ymdriniaeth. Dwi'n ofni fod yna sawl cam gwag yn y casgliad hwnnw. Roeddwn i'n ifanc iawn ar y pryd, a dwi ddim am ymddiheuro am fod yn ifanc, ond mi fuaswn i'n sicr yn pwyllo ac yn ystyried cyn mynd ati i sgwennu unrhyw un o'r darnau hynny heddiw.

Mi sgwennodd ffrind i mi, Llŷr Titus, ryw dro, y byddai dweud na ddylai awdur archwilio profiadau y tu hwnt i'w rai unigryw ei hun, yn gwneud y gwaith yn anodd dros ben. 'Byddai 'ngwaith i er enghraifft', medda fo, 'yn llawn cymeriadau gwrywaidd, gwyn, lled-freintiedig sy'n cadw gwenyn. Go brin y byddai cymeriad felly o fawr ddiddordeb i neb.' A thra 'mod i rŵan yn ysu i ddarllen nofel Llŷr am ddyn sy'n cadw gwenyn, mae ganddo bwynt. Mae straeon byrion, nofelau a dramâu yn ddrych ar gymdeithas, ac mae cymdeithas yn flerwch

hardd o bobl o bob math o gefndiroedd y byddai peidio â sgwennu amdanyn nhw’n gwneud cam â thestun a darllenydd fel ei gilydd.

Mae’r hyn wnaethom ni gyda chyfres Y Pump yn cynnig ffordd o wneud hynny sy’n driw i brofiadau real, sydd ddim yn gweld trawma pobl go-iawn fel gwythïen i’w chloddio’n ddidostur yn enw ‘realaeth’ ond yn hytrach yn ystyried sgwennu am y pethau hyn fel deialog, lle mae llais profiad yn medru trympio llais yr awdur, lle rydyn ni hefyd yn meithrin lleisiau newydd all wneud cyfiawnder mwy â’r pynciau sydd dan sylw. Dwi’n gobeithio mai felly rwyt ti’n gweld pethau hefyd.

Dyma lythyr i ddweud ‘diolch’, yn anad dim. Diolch am roi dimensiynau i Robyn na allwn i fod wedi eu rhoi iddi; diolch am ddilysu rhai pethau ond yn bennaf, diolch am fod yn onest pan oedd manylion rhyw brofiad neu’i gilydd, troad ymadrodd neu ymateb, ddim cweit yn taro deg. Rwyt ti wedi cryfhau’r cymeriad yn ei nofel hi ei hun a thrwy gydol cyfres Y Pump. Dwi mor falch fod ein henwau ni ein dau ar glawr y nofel, yn gydradd yn y broses o greu o’r drafft cyntaf hyd y gyfrol ar y silff.

Cymer ofal, ac mi edrycha’ i ’mlaen at glywed gen ti’n o fuan.

cariad mawr,

Iestyn

*

Annwyl Iestyn,

Mae Caerdydd yn edrych ar fy ôl i ac rwy’n mwynhau’r rhyddid o fod gartref. Gobeithio dy fod di a’r teulu yn cadw’n iawn? Diolch am dy lythyr, braf yw cael y cyfle i drafod ein profiadau chwyldroadol o weithio ar brosiect mor sbesial.

Fel person sy’n dymuno dilyn gyrfa lenyddol mae dy lythyr yn hynod o graff, wrth imi glywed awdur rwy’n ei edmygu yn mynegi ei bryderon am y llinell gymhleth sydd rhaid ei throedio o ran pwy sydd â’r hawl i ysgrifennu am brofiadau pwy. Ac er fy mod i’n rhan o’r broses, buaswn i’n dadlau fod nofelau Y Pump wedi creu strwythur cydweithio newydd sydd yn rhedeg yn baralel â’r llinell honno, trwy alw ar leisiau pobl ifanc sydd yn rhannu elfennau unigryw'r cymeriadau fel dilyswyr, er mwyn sicrhau fod y nofelau yn dangos y bobl ifanc hyn mewn ffordd real gydag onestrwydd wrth graidd y portread. Mae gan bob awdur gyfrifoldeb i ysgrifennu a chreu cymeriadau argyhoeddiadol, dim ots pwy ydyn nhw. Rwy o’r farn y gall unrhyw un ysgrifennu unrhyw gymeriad, dim ond eu bod yn barod i wneud y gwaith; y gwaith o ddysgu a gwrando.

Trwy gydol y broses o ddatblygu stori Robyn, y drafftio a'r ailddrafftio, cynnig syniadau am gymeriadu neu blot, rhannu barn a chynnal trafodaethau ynglŷn â chywirdeb iaith a phrofiadau, roeddwn i'n hynod o ddiolchgar iti am fod mor agored i fy nghlywed i. Fy marn, fy syniadau, a 'mhrofiadau fel dyn ifanc traws. Mewn amser lle mae casineb a chamwybodaeth yn rhemp o fewn cylchoedd anoddefgar mae cynrychiolaeth yn hollbwysig, a chynrychiolaeth dda yn bwysicach eto. Roedd hi'n fraint i weithio gyda rhywun mor barod i ddysgu a deall y cymhlethdodau a'r heriau y mae'r gymuned yn eu hwynebu, ac i ysgrifennu am Robyn gyda'r parch y mae hi a phawb sydd o dan yr ymbarél yn ei haeddu. Am hynny rwy mor ddiolchgar iti.

Fe wnaeth ffrind ofyn pwy ddiwrnod sut y dechreuais i ar hyd y llwybr ysgrifennu heb unrhyw fwriad o fod yn 'awdur'? Cymerais y cyfle yn ystod y cyfnod clo i weithio ar rywbeth hynod gyffrous a gynigiodd gyfle i mi fod yn greadigol, ac i ddefnyddio fy mhrofiadau i fy helpu i siapio cymeriad radical y buaswn i wedi dwli darllen amdani ryw chwe blynedd yn ôl (a nawr). Allwn i fyth fod wedi rhagweld gwerth y mentora anhygoel ges i gen ti, a'r sbardun y gwnest ti a Robyn ei danio ynof fi i ymddiried yn fy angerdd am adrodd stori. Doedd gen i ddim hyder ynof fi fy hun ar y dechrau ond nawr, ar ôl cydweithio â naw o dalentau ysbrydoledig a meithrin y sgiliau ymarferol o ddatrys problemau a golygu gwaith creadigol, rwy'n gweld gwerth yn fy llais fy hun. Mae'n anodd esbonio mai trwy hap a damwain y bennais i lan yn ysu am yrfa ysgrifennu, oherwydd y gwir yw fy mod i wastad wedi dymuno llunio straeon a chymeriadau mewn unrhyw gyfrwng ond doedd gen i ddim ffydd fod hynny'n bosib i mi. Roedd cymryd y cyfle i fod yn rhan o rywbeth anhygoel yn codi ofn, ond trwy roi cynnig arni mi ges i gymaint o brofiadau gwerthfawr a dysgais wers hynod o bwysig: fod dweud 'ie', yn amlach na pheidio, yn syniad da.

Does gen i ddim byd ond edmygedd a diolchgarwch i ti am dy amynedd, dy ffydd a dy eiriau sy'n llywio Robyn yn berffaith. Diolch.

cariad mawr,

Leo

Bardd, llenor ac un o sylfaenwyr a golygyddion Cyhoeddiadau'r Stamp yw **Iestyn Tyne**. Mae'n gyn-enillydd Coron a Chadair Eisteddfod yr Urdd, ac mae wedi cyhoeddi sawl casgliad o farddoniaeth, gan gynnwys *Dysgu Nofio* (2023). Ef, gyda Leo Drayton, oedd awdur y gyfrol *Robyn* yn y gyfres Y Pump (2021), ac mae ei gyfrol ddiweddaraf, *Y Cyfan a fu Rhyngom Ni* (2025), newydd ei chyhoeddi gan Wasg y Bwthyn.

Mae **Leo Drayton** yn awdur a dramodydd o Gaerdydd. Yn 2021, bu'n gyd-awdur ar y nofel *Robyn*, cyfrol a gyhoeddwyd yn rhan o'r gyfres lwyddiannus, Y Pump, a enillodd gategori Plant a Phobl Ifanc a Gwobr Barn y Bobl Golwg 360 yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2022. Mae'n un o gyfranwyr y flodeugerdd arloesol *Curiadau: Blodeugerdd LHDTC+* a gyhoeddwyd yn 2023.

**Cyfeiriadau**

Tyne, Iestyn, gyda Drayton, Leo. 2021. *Robyn* [cyfres Y Pump]. Talybont: Y Lolfa.

*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*